Hawdd ei Ddeall

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

# Canllaw i frechiadau i bobl ag anabledd dysgu

## Rhan 1: Am frechlynnau



GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Hydref 2023

# Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae hwn yn ganllaw hawdd ei ddeall. Efallai y byddwch chi angen cefnogaeth i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd i'w deall. Gallwch wirio beth mae'r geiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 21**.



Ysgrifennwyd y canllaw hwn gan:

- Hawdd Ei Ddeall Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- a phobl ag anabledd dysgu fel rhan o'r Prosiect Gwybodaeth am Frechu.




Am ragor o wybodaeth am **frechlynnau** sy'n cael eu cynnig yng Nghymru ewch i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: icc.gig.cymru/brechlynnau.

I ddweud wrthym beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**




Dyma **ran 1** o'n canllaw ar **frechu** i bobl ag anabledd dysgu. Mae rhan 1 yn esbonio:

- beth yw **brechlynnau**
- sut mae **brechlynnau** yn gweithio
- a pham mae **brechlynnau** yn bwysig.




Dylech ddarllen **rhan 2** hefyd. Mae rhan 2 yn esbonio:

- sut beth yw cael **brechlyn**
- eich hawliau i gefnogaeth
- a sut i ofalu amdanoch chi eich hun ar ôl **brechlyn**.



**Brechu** yw'r ffordd rydyn ni'n rhoi brechlyn i **rywun**.




Mae **brechlyn** yn feddyginiaeth sy'n helpu eich corff i frwydro yn erbyn afiechydon. Mae'n helpu eich cadw'n ddiogel rhag mynd yn sâl iawn.



Mae'r rhan fwyaf o **frechlynnau** yn cael eu rhoi trwy chwistrelliad. Weithiau mae pobl yn eu galw yn **jabs**.



Gallwch hefyd wylio ein fideo am **frechu** yma neu ewch i YouTube a chwiliwch am:

**Stori Rachel - cael brechlyn.**

# Beth sydd yn y canllaw hwn


Ynglŷn â'r canllaw hwn .......... 2

Cyflwyniad .......... 6

Ynglŷn â brechu .......... 7

Pobl ag anabledd dysgu a brechlynnau .......... 8

Sut mae brechlynnau yn gweithio .......... 13

Alergeddau .......... 16

Rhagor o wybodaeth .......... 20

Geiriau anodd .......... 21

# Cyflwyniad



Mae gennych chi'r hawl i gael eich trin yn gyfartal, gydag urddas a pharch.




Mae'n bwysig gofalu am eich iechyd.



Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wasanaethau gwahanol i helpu pobl i ofalu am eu hiechyd. Mae hyn yn cynnwys pethau fel:

- helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu
- profi'n gynnar am ganser
- a **brechu**.

# Ynglŷn â brechu




Mae **brechlynnau** yn bwysig iawn. Gallant eich amddiffyn chi a'r rhai o'ch cwmpas rhag mynd yn sâl iawn.



**Brechu** yw un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn rhag rhai clefydau, fel:


- COVID-19
- y frech goch
- a ffliw.



Mae miliynau o fywydau yn cael eu hachub ledled y byd bob blwyddyn gan **frechlynnau**.



Os yw'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu **brechu**, mae'n anoddach i glefyd ledaenu.



Os bydd pobl yn rhoi'r gorau i gael **brechlynnau**, gallai clefydau ledaenu'n gyflym.

# Pobl ag anabledd dysgu a brechlynnau



Gall **brechlynnau** helpu i'ch amddiffyn rhag y clefydau a all eich gwneud chi'n sâl iawn.



Fel arfer, mae **brechlynnau** yn cael eu rhoi i fabanod, plant a phobl ifanc yn y mannau canlynol:

- eu meddygfa
- neu ysgol.



Mae cael eich holl **frechlynnau** yn ystod plentyndod yn rhoi amddiffyniad da i chi rhag pethau fel:

- Y frech goch
- Llid yr ymennydd
- Clwy'r Pennau
- Niwmonia
- Rwbela (Y frech Almaenig)
- Rhai canserau
- Y pas




Os ydych chi'n riant, mae'n bwysig mynd â'ch plentyn am ei holl **frechlynnau**.




Gallwch ddarganfod mwy am **frechlynnau** plentyndod ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru: icc.gig.cymru/brechlynnau.



Gall rhai pobl fynd yn sâl iawn o glefydau sy'n effeithio ar eu system anadlu. Efallai y bydd rhai pobl yn marw hyd yn oed. Mae plant ac oedolion ag anabledd dysgu mewn risg uwch.



Mae clefydau sy'n effeithio ar eich system anadlu yn cynnwys pethau fel:

- Niwmonia
- y pas
- ffliw
- a COVID-19.



Gall oedolion ag anabledd dysgu gael **brechlynnau** rhad ac am ddim i amddiffyn rhag:

- **Ffliw**



Dylech gael **brechlyn** ffliw bob blwyddyn yn yr hydref. Gallwch ei gael yn eich meddygfa, neu'ch fferyllfa leol.



Dylech gael gwahoddiad gan eich meddygfa. Nid oes rhaid i chi aros nes y cewch eich gwahodd i wneud apwyntiad.

- **COVID-19**




Dylech fod eisoes wedi cael, neu gael cynnig, o leiaf 2 ddos o **frechlyn** COVID-19.




Mae pobl sydd mewn perygl o fynd yn sâl iawn o COVID-19 wedi cael cynnig **brechlyn atgyfnerthu**. Dylech gael gwahoddiad gan eich meddygfa os oes angen i chi gael **brechlyn atgyfnerthu** COVID-19.




Mae **brechlyn atgyfnerthu** yn ddos arall o **frechlyn**. Mae hyn yn rhoi hwb i amddiffyniad rhag salwch pan fydd y **brechlynnau** cyntaf yn dechrau gwanhau.



Efallai y byddwch chi'n cael cynnig **brechlynnau** eraill. Mae hyn yn dibynnu ar eich oedran, eich cyflyrau iechyd a'ch ffordd o fyw.



Os nad ydych chi'n siŵr a ddylech fod yn cael **brechlyn**, cysylltwch â'ch meddygfa.



Mae'n bwysig cael eich **brechlynnau** pan fyddwch chi'n cael eich gwahodd. Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wirio eich bod wedi cael eich **brechlyn** ffliw yn ystod eich Gwiriad Iechyd Blynyddol.




Os ydych chi'n poeni am gael **brechlyn**, siaradwch â'r canlynol:

- eich meddyg teulu
- nyrs
- neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol.


Gallant eich helpu chi.

# Sut mae brechlynnau yn gweithio



Mae **brechlynnau** yn gweithio trwy ddweud wrth ein **system imiwnedd** sut i frwydro yn erbyn clefyd.

Eich **system imiwnedd** yw'r ffordd mae eich corff yn ymladd clefydau. Mae'n gweithio i helpu i'ch atal rhag mynd yn sâl.



Mae gan **frechlynnau** swm bach o germau gwan iawn neu farw ynddynt.



Mae gwyddonwyr yn eu gwneud yn wannach neu'n eu lladd. Mae hyn yn eu hatal rhag achosi niwed.



Oherwydd bod y germau yn wan iawn neu wedi marw, ni allant roi'r clefyd i chi.



Mae eich **system imiwnedd** yn ymateb i’r germau yn y **brechlyn** drwy:

- **Ei gydnabod** - mae eich corff yn sylweddoli bod germ newydd i ddelio ag ef.
- **Gwneud gwrth-gyrff** - dyma’r pethau yn ein corff sy’n ymladd y germau.
- **Cofio’r** germau a sut i ymladd yn eu herbyn yn y dyfodol.



Mae'n fwy diogel i'ch **system imiwnedd** ddysgu hyn o **frechlyn**. Yn hytrach na thrwy ddal clefyd.



Mae'r holl **frechlynnau** yn cael eu profi cyn iddynt gael eu defnyddio. Mae hyn i wneud yn siŵr na fyddant yn eich niweidio.



Maen nhw hefyd yn cael eu gwirio'n gyson am **sgil-effeithiau**.



**Sgil-effeithiau** yw pan fyddwch chi'n cymryd meddyginiaeth ac mae'n gwneud i chi deimlo'n sâl.



Nid yw **sgil-effeithiau** yn digwydd i bawb. Fel arfer nid ydynt yn unrhyw beth i boeni amdano ac nid ydynt yn para'n hir.




Mae mwy am **sgil-effeithiau** yn **rhan 2** o'r canllaw hwn.

# Alergeddau



**Alergedd** yw pan fydd eich corff yn ymateb i rywbeth yn wael. Gall **alergedd** achosi pethau fel tisian a chosi.



Ar gyfer nifer fach iawn o bobl gall **alergedd** fod yn ddifrifol iawn. Gall achosi chwydd a thrafferth anadlu.



Mewn nifer fach o bobl gall **alergedd** achosi marwolaeth. **Mae'n brin iawn cael alergedd difrifol i frechlynnau**.



Bydd y person sy'n rhoi eich **brechlyn** yn gwybod sut i ddelio â'r **alergedd**. Byddant yn gallu ei drin yn syth.



Weithiau, gall pobl ddioddef **alergedd** i gynhwysyn mewn **brechlyn**.




**Mae gan rai brechlynnau** gynhwysion i'w gwneud yn ddiogel a'u helpu i weithio'n well. Gall hyn gynnwys:




- **Gwrthfiotigau** - (mewn symiau bach). Maent yn helpu i atal germau rhag tyfu yn y **brechlyn** pan:
  - mae'n cael ei wneud
  - ac mae’n cael ei storio.



- **Protein wy** - yn helpu i dyfu'r germau sydd eu hangen i wneud i'r **brechlyn** weithio.



- **Gelatin porc** - yn helpu i amddiffyn y **brechlyn** ac yn helpu i'w atal rhag mynd yn hen.




Efallai y bydd rhai pobl yn poeni am gynhwysion **brechlyn** oherwydd:

- eu diet
- neu grefydd.



Os ydych chi'n poeni am y cynhwysion, siaradwch â'r person sy'n rhoi'r **brechlyn** i chi.



Efallai y byddwch chi'n dal i allu cael y **brechlyn**.



Neu gael **brechlyn** heb gynhwysion rydych chi'n poeni amdanynt neu'n rydych chi'n dioddef o **alergedd** iddynt.



**Nid yw brechlynnau yn achosi alergeddau.**



Os ydych chi'n poeni am gael **brechlyn**, siaradwch â'r canlynol:

- eich meddyg teulu
- nyrs
- neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Gallant eich helpu chi.

# Rhagor o wybodaeth



Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yno i wrando arnoch chi a'ch cefnogi. Er enghraifft, eich meddyg teulu, nyrs a'ch fferyllydd.



Gallwch chi siarad â nhw bob amser os oes angen:

- mwy o gefnogaeth
- gwybodaeth am **frechlynnau**
- gwybodaeth am gael eich **brechu**.



Mae gwybodaeth hawdd ei deall am **frechu** hefyd ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn: icc.gig.cymru/brechlynnau.




Darllenwch **ran 2** o'r canllaw hwn. Bydd yn rhoi gwybodaeth i chi am gael **brechlyn**.

# Geiriau anodd

## Alergedd

Alergedd yw pan fydd eich corff yn ymateb i rywbeth yn wael. Gall alergedd achosi pethau fel tisian a chosi. Ar gyfer nifer fach iawn o bobl gall alergedd fod yn ddifrifol iawn ac achosi chwydd a thrafferth anadlu. Mewn nifer fach o bobl gall alergedd achosi marwolaeth.

## Brechlyn

Mae brechlyn yn feddyginiaeth sy'n helpu eich corff i frwydro yn erbyn afiechydon. Mae'n helpu eich cadw'n ddiogel rhag mynd yn sâl iawn. Mae'r rhan fwyaf o frechlynnau yn cael eu rhoi trwy chwistrelliad. Weithiau mae pobl yn eu galw yn jabs.

## Brechlyn atgyfnerthu

Mae brechlyn atgyfnerthu yn ddos arall o frechlyn. Mae hwn yn rhoi hwb i amddiffyniad rhag salwch pan fydd y brechlynnau cyntaf yn dechrau gwanhau.

## Brechu

Brechu yw'r ffordd rydyn ni'n rhoi brechlyn i rywun.

## Sgil-effeithiau

Sgil-effeithiau yw pan fyddwch chi'n cymryd meddyginiaeth neu'n cael brechlyn ac mae'n gwneud i chi deimlo'n sâl. Nid yw sgil-effeithiau yn digwydd i bawb. Fel arfer nid ydynt yn unrhyw beth i boeni amdano ac nid ydynt yn para'n hir.

## System imiwnedd

Ein system imiwnedd yw'r system yn ein corff sy'n ymladd afiechydon ac sy'n gweithio i'n hatal rhag mynd yn sâl.

Diolch i bawb a helpodd i greu'r canllaw hwn. Gyda diolch arbennig i:

- Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin
- Fforwm Cyswllt Conwy
- Pobl yn Gyntaf Casnewydd
- Anabledd Dysgu Cymru
- Hawdd Ei Ddeall Cymru
- Gwelliant Cymru

© Iechyd Cyhoeddus Cymru
Hydref 2023

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives